# DATGELU GWYBODAETH RHWNG ASIANTAETHAU AC AWDURDODAETHAU TEULU A THROSEDDOL: PROTOCOL 2024

## Partïon

Mae’r farnwriaeth, awdurdodau lleol, cynrychiolwyr yr heddlu, Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron, drwy gydweithio ac ymgynghori, wedi datblygu’r protocol hwn a fydd yn cael ei roi ar waith o 1 Mawrth 2024 ymlaen.

## Cwmpas

Mae’r protocol hwn yn disodli Protocol 2013 a’r Model Ymarfer Da – Datgelu gwybodaeth mewn achosion honedig o gam-drin plant a gwrandawiadau cyfarwyddiadau gofal a throseddol cysylltiedig (Hydref 2013) ac mae’n berthnasol i gyfnewid gwybodaeth a deunydd rhwng awdurdodaethau ac asiantaethau teulu a throseddol. Mae’n ymwneud â phob achos cyfraith teulu preifat a chyhoeddus, gan gynnwys achosion cyfraith gyhoeddus a ystyrir, a phob deunydd sydd ym meddiant yr heddlu. Bydd yn cael ei adolygu gan weithgor sy’n cynnwys y farnwriaeth, awdurdodau lleol, yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron, yn seiliedig ar y profiad o’i roi ar waith, yn 2025.

## Cynnwys

Mae tair rhan i’r protocol hwn:


| | |
|---|---|
| Rhan A: datgelu gan yr heddlu i achosion teulu | tudalennau 5 i 6 |
| Rhan B: cais am ddatgeliad gan ymchwilydd | tudalennau 7 i 12 |
| Rhan C: gwrandawiadau cyfarwyddiadau cysylltiedig | tudalennau 13 i 15 |


## Ymrwymiadau allweddol

Mae’r protocol hwn yn cyflwyno’r Atodiadau a ganlyn:

Atodiad 1: y ffurflen i'w defnyddio ar gyfer **ceisiadau am ddeunydd yr heddlu** gan awdurdodau lleol a chyfreithwyr, ac eithrio ymgyfreithwyr drostynt eu hunain

Atodiad 2: nodiadau cyfarwyddyd ar gyfer llenwi Atodiad 1 mewn achosion cyfraith breifat

Atodiad 3: nodiadau cyfarwyddyd i awdurdodau lleol ar gyfer llenwi Atodiad 1 mewn achosion cyfraith gyhoeddus sy'n cael eu hystyried ac sy'n parhau

Atodiad 4: rhestr wirio ar gyfer y farnwriaeth wrth ystyried y datgeliad sy'n ofynnol gan yr heddlu

Atodiad 5: y gorchymyn safonol i'w geisio gan y llys ar gyfer **deunydd yr heddlu**, ar gyfer ymgyfreithwyr drostynt eu hunain a chyfreithwyr sy'n ymwneud ag achosion cyfraith breifat

Atodiad 6: y ffurflen i'w defnyddio ar gyfer **ceisiadau a wneir gan yr heddlu am ddeunydd**

Mae partïon y protocol hwn yn ymrwymo i'r canlynol, er mwyn cyflawni nodau ac amcanion y protocol hwn:

- defnydd gorfodol o'r ffurflenni atodedig a'r canllawiau atodedig
- bydd ymatebion i geisiadau am wybodaeth neu ddeunydd yn cael eu darparu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Nid oes unrhyw beth yn y protocol hwn yn effeithio ar y prosesau a'r gweithdrefnau i bartneriaid diogelu rannu gwybodaeth at ddiben penodol diogelu plant neu oedolion agored i niwed sydd mewn perygl o niwed. Rhaid i bartneriaid barhau i ddilyn eu trefniadau lleol a'u canllawiau cenedlaethol lle rhennir gwybodaeth a deunydd at y diben hwn[1].

## Nodau ac Amcanion

Bwriad y protocol hwn yw:

[1] Working together to safeguard children - GOV.UK (www.gov.uk) a Information sharing advice for safeguarding practitioners - GOV.UK (www.gov.uk)

- darparu dull cyson o rannu gwybodaeth yn genedlaethol er mwyn diogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion eraill sy'n agored i niwed
- hyrwyddo ceisiadau amserol, penodol a chymesur am ddeunydd ac ymatebion
- cydnabod pwysigrwydd cael gwybodaeth a deunydd perthnasol i bob parti er mwyn cyflawni eu swyddogaethau swyddogol, gan gynnwys swyddogaethau diogelu'r heddlu ac awdurdodau lleol yn ogystal â rhwymedigaethau datgelu treialon teg yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron
- lleihau'r angen am wrandawiadau, gwysion tystion, ceisiadau brys a gwrandawiadau Imiwnedd er Lles y Cyhoedd i'r rhai sy'n gwbl angenrheidiol.

Mae'r protocol hwn yn gwahaniaethu rhwng ceisiadau am wybodaeth (er mwyn llywio cais am ddeunydd, neu am ddiweddariad am achos) a cheisiadau am ddeunydd i'w gwneud gan ddefnyddio Atodiadau 1 a 5.

## Termau allweddol

- Partneriaid Diogelu: yr awdurdod lleol a phrif swyddog, drwy eu swyddogion dirprwyedig, yr heddlu o fewn ardal awdurdod lleol.[2]
- Trydydd Parti: unigolyn neu sefydliad nad yw (a) yn ymchwilydd nac yn erlynydd na (b) yn un a amheuir neu sy'n ddiffynnydd mewn ymchwiliad troseddol.
- Prawf datgelu (mewn achosion troseddol): deunydd y gellid yn rhesymol ei ystyried fel rhywbeth a allai danseilio achos yr erlyniad neu gynorthwyo achos yr amddiffyniad[3]. Mae gan erlynydd ddyletswydd i ystyried amserlenni deunydd perthnasol a ddatgelir iddynt gan yr ymchwilydd ac i ddarparu'r deunydd amddiffyniad sy'n bodloni'r prawf hwn.
- Deunydd sensitif (mewn achosion troseddol): y byddai ei ddatgelu, petai hynny'n digwydd, yn arwain at risg wirioneddol o niwed difrifol i fudd cyhoeddus pwysig[4]. Cofnodir y deunydd hwn ar restr ar wahân er gwybodaeth i'r ymchwilydd a'r erlynydd yn unig.
- Ymchwilydd: unrhyw swyddog heddlu, ymchwilydd sifil neu aelodau eraill o staff yr heddlu sy'n ymwneud â chynnal ymchwiliad troseddol.

[2] Fel y diffinnir gan Adran 10, 11 ac 16E Deddf Plant 2004 sy'n ei gwneud yn ofynnol i bartneriaid diogelu wneud trefniadau i weithio gyda'i gilydd i ddiogelu a hyrwyddo lles plant yn eu hardal

[3] Adran 3 a 7A Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 (CPIA 1996) fel y'i diwygiwyd

[4] Cod Ymarfer a gyhoeddwyd yn unol â CPIA 1996

- Erlynydd: Erlynydd y Goron sy’n gyfrifol am gynnal achosion troseddol sy’n deillio o ymchwiliad troseddol penodol.

## Llywodraethu

Rhaid i drefniadau lleol, sy’n cael eu goruchwylio gan bartneriaid diogelu lleol, fynd i’r afael â’r canlynol:

- nodi Pwyntiau Cyswllt Unigol gan asiantaethau partner perthnasol
- yr amserlenni ar gyfer ymateb i geisiadau a darparu datgeliad
- y dull a ddefnyddir i ddarparu deunydd
- unrhyw dempled, os oes angen, ar gyfer Cais am Wybodaeth Rhan A neu B (gweler isod)
- sut mae awdurdodau lleol yn rhoi gwybod i’r heddlu, ac i’r gwrthwyneb, ar ddechrau achos: mae’r ddau yn gyfrifol am ystyried ar ddechrau eu hachos eu hunain a allai’r llall fod â deunydd, ond mae’r broses hysbysu yn archwiliad pellach i sicrhau ei fod yn cael ei adnabod yn gynnar
- y broses ar gyfer adennill costau datgelu gwybodaeth yn briodol
- y broses ar gyfer cael trawsgrifiad o’r achos, a thalu amdano, lle bo angen
- goruchwylio’r protocol, achosion unigol sy’n dangos arferion gorau neu y dylid dysgu oddi wrthynt, a chynigion ar gyfer gwella’r protocol neu ei atodiadau.

Er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth hon yn hygyrch, bydd y trefniadau lleol hyn yn cael eu casglu a’u cyhoeddi.

## Rhan A: datgeliadau gan yr heddlu i achosion teulu

1.1 Rhaid i'r partïon sefydlu trefniadau lleol i ddefnyddio'r ffurflen yn Atodiad 1 a dilyn y canllawiau yn Atodiadau 2 i 5.

1.2 Yn gyntaf, rhaid i awdurdodau lleol adolygu unrhyw wybodaeth a deunydd sydd eisoes yn eu meddiant[5] fel arfer safonol **cyn** gwneud unrhyw gais i'r heddlu am wybodaeth a deunydd.

1.3 Ar ddechrau achos cyfraith gyhoeddus a ragwelir, lle mae cynrychiolydd yr awdurdod lleol o'r farn y bydd deunydd gan yr heddlu sy'n berthnasol i'r materion canolog yn yr achos, rhaid iddynt roi gwybod i'r heddlu am fodolaeth achos a ystyriwyd/achos parhaus a cheisio deunydd perthnasol drwy gyflwyno'r ffurflen yn Atodiad 1 i'r heddlu. Mae'n hanfodol bod yr heddlu'n cael gwybod am ddyddiadau ac amserlenni perthnasol ar y cam hwn gan ddefnyddio'r ffurflen ac, os oes diweddariadau perthnasol, yn dilyn hynny.

1.4 Oherwydd brys diogelu achosion cyfraith gyhoeddus, yn yr achosion hyn, bydd yr heddlu'n ymateb drwy ddarparu datgeliad fel rheol gyffredinol o fewn 20 diwrnod busnes, oni bai fod amserlen arall yn cael ei thrafod a'i chymeradwyo gan y llys.

1.5 Os daw'n amlwg nad yw'r heddlu'n gallu darparu'r deunydd y gofynnwyd amdano o fewn 20 diwrnod busnes, byddant yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd cyn gynted ag y bo'n ymarferol ac yn cadarnhau'r amserlenni realistig a thebygol ar gyfer datgelu'r deunydd. Mae'n bosibl y bydd trefniadau lleol yn mynd i'r afael â hyn ymhellach.

1.6 Mewn achosion cyfraith breifat, rhaid i gynrychiolwyr lenwi Atodiad 1 pan fyddant yn cael cyfarwyddyd i wneud hynny gan y llys. Rhaid cyflwyno pob cais yn Atodiad 1 i'r heddlu gyda chopi o Atodiad 5. Heb hyn, bydd ceisiadau am ddatgeliad yn cael eu gwrthod. Bydd yr heddlu'n ymateb drwy ddarparu datgeliad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

---

[5] Er enghraifft, atgyfeiriadau digwyddiadau'r Heddlu / adroddiadau MERLIN, Adroddiadau Hanes Cam-drin Domestig, Cynhadledd Achos Amddiffyn Plant (CPCC) neu adroddiad Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC)

1.7 Gellir gwneud cais am wybodaeth gan lys troseddol am achos, gan gynnwys gwybodaeth a gynhwysir mewn deunyddiau a gedwir gan swyddog y llys at ddibenion yr achos, yn unol â Rheol Trefniadaeth Droseddol 5.8 ac fe'i rheolir gan Reol 5 yn gyffredinol.

1.8 Gellir gofyn am wybodaeth am ymchwiliad neu, ar ôl cyhuddiad, am erlyniad yn ysgrifenedig gan yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron yn y drefn honno: dylai'r heddlu ddarparu gwybodaeth am yr ymchwiliad, a Gwasanaeth Erlyn y Goron ynghylch cyhuddo ac erlyn. Gelwir hyn yn "Gais am Wybodaeth Rhan A". Rhaid i'r heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron ddarparu'r holl wybodaeth y gallant ei darparu, yn brydlon. Nid oes ffurflen ragnodedig oherwydd mae'r wybodaeth a geisir, a'r wybodaeth y mae'r sawl sy'n gwneud y cais yn gallu ei darparu, yn amrywio. Mae Cais Rhan A y tu allan i gwmpas Atodiad 1. Fodd bynnag, caiff gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i Gais Rhan A fod yn sail i gais a wneir yn unol ag Atodiad 1. Gallai enghreifftiau o Gais Rhan A fod yn gais am y dyddiad mae'r heddlu'n bwriadu cyfweld tyst, dyddiad gwrandawiad neu ddyddiadau camau gweithdrefnol eraill mewn erlyniad. Fodd bynnag, mae'n dal yn hanfodol bod unrhyw Gais am Wybodaeth Rhan A yn un penodol a'i fod wedi ei gyfyngu i wybodaeth sy'n berthnasol. Gall ymateb ffurfiol i Gais am Wybodaeth Rhan A helpu'r awdurdod lleol neu'r llys i ddeall cynnydd yr ymchwiliad, gan osgoi presenoldeb diangen yn y llys gan swyddog o ystyried darpariaeth ffurfiol gwybodaeth drwy'r llwybr hwn.

1.9 Dylid gwneud unrhyw gais am ddatgelu gan yr heddlu mewn Achosion Teulu gan ymgyfreithwyr drostynt eu hunain drwy'r drefn Rheolau Trefniadaeth Teulu Ffurflen C2. Rhaid i'r ceisydd ofyn i'r llys wneud gorchymyn, gan nodi'r hyn a geisir gan ddefnyddio'r templed yn Atodiad 5 fel sail. Rhaid i geisiadau am ddatgelu fod yn benodol i'r materion y mae angen i'r Llys benderfynu arnynt. Rhaid i geisiadau fod yn rhai penodol ac egluro'n glir yr hyn a geisir a'r rhesymau dros y cais. Mae ceisiadau eang heb ffocws yn debygol o gael eu herio a/neu eu gwrthod gan yr heddlu. Bydd ceisiadau o'r fath yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeisydd ymrwymo i dalu costau rhesymol yr heddlu wrth ddarparu datgeliad ac y bydd deunydd a ddatgelir yn cael ei ddefnyddio at ddibenion yr achos Llys Teulu yn unig, ac yn cael ei gadw'n ddiogel bob amser. Ar ôl ei wneud, rhaid cyflwyno gorchymyn yn brydlon i uned ddatgelu berthnasol yr heddlu ynghyd â: manylion y partïon/llys ar gyfer cyflwyno'r datgeliad; manylion y parti sy'n

gyfrifol am dalu costau'r heddlu; ymrwymiad wedi ei lofnodi gan unrhyw barti sydd i gael mynediad at dystiolaeth sain/digidol.

## Rhan B: datgeliad a geisir gan ymchwilydd

2.1 Rhaid i'r partïon sefydlu trefniadau lleol i ddefnyddio'r ffurflen yn Atodiad 6. Mae canllawiau Cwestiynau Cyffredin, ar gyfer swyddogion ac unigolion, ar gael i ategu'r defnydd o Atodiad 6.

2.2 Nid oes dim yn yr adran hon yn effeithio ar y prosesau a'r gweithdrefnau ar wahân ar gyfer rhannu gwybodaeth, a chyfyngiadau ar ei lledaenu, at ddibenion amddiffyn plant.

2.3 Caiff ymchwilydd ofyn yn ysgrifenedig i awdurdod lleol am wybodaeth am achosion teulu. Gelwir hyn yn "Gais am Wybodaeth Rhan B". Rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu'r holl wybodaeth y mae'n gallu ei darparu, yn brydlon. Nid oes ffurflen ragnodedig oherwydd mae'r wybodaeth a geisir, a'r wybodaeth y mae'r sawl sy'n gwneud y cais yn gallu ei darparu, yn amrywio. Mae Cais Rhan B y tu allan i gwmpas Atodiad 6. Fodd bynnag, caiff gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i Gais Rhan B fod yn sail i gais a wneir yn unol ag Atodiad 6. Gallai enghreifftiau o Ofyniad Rhan B gynnwys cais i ddeall a yw'r awdurdod lleol yn bwriadu cael deunydd penodol, dyddiad gwrandawiad neu ddyddiadau camau gweithdrefnol eraill mewn achosion teulu. Fodd bynnag, mae'n dal yn hanfodol bod unrhyw Gais am Wybodaeth Rhan B yn un penodol a'i fod wedi ei gyfyngu i wybodaeth sy'n berthnasol. Gall awdurdod lleol ddefnyddio Cais Rhan B am Wybodaeth i sicrhau ei fod yn deall sut mae deunydd sydd wedi ei ddarparu wedi cael ei ddefnyddio ar y pwynt hwnnw yn yr ymchwiliad troseddol neu'r erlyniad.

2.4 Mae cyfrifoldebau ymchwilydd mewn perthynas â deunydd y gall trydydd parti ei ddal wedi eu nodi yng Nghanllawiau'r Twrnai Cyffredinol ar Ddatgelu 2022[6]. Bydd ymchwilydd yn gofyn am ddeunydd gan drydydd parti os yw'n berthnasol i fater yn yr achos, yn drywydd ymholi rhesymol ar gyfer ei gael, ac mae'n angenrheidiol ac yn gymesur gwneud hynny, a gwneud y cais yn unol â Chanllawiau 2022. Rhaid i'r cais gael ei wneud cyn y penderfyniad i gyhuddo fel y bydd cynnyrch unrhyw gais o'r fath yn rhan o'r deunydd a gyflwynir ar gyfer y penderfyniad ynghylch cyhuddo. Dim ond ar

[6] Gweler yn benodol baragraffau 42 i 45, 28 i 34 ac 11 i 13

ôl cwblhau'r holl drywyddau ymholi rhesymol sy'n weddill y dylid gwneud y penderfyniad ynghylch cyhuddo[7]. O bryd i'w gilydd daw bodolaeth deunydd perthnasol i'r amlwg ar ôl i benderfyniad ynghylch cyhuddo gael ei wneud, neu os oes angen penderfyniad brys ynghylch cyhuddo. Bydd yr ymchwilydd, gyda chymorth lle bo'n briodol gan yr erlynydd, yn dal i geisio'r deunydd gan ddilyn yr un egwyddorion[8].

2.5 Mae cyfrifoldeb yr ymchwilydd i ddilyn pob trywydd ymholi rhesymol, gan gynnwys ceisio deunydd gan drydydd parti, yn ffactor allweddol o ran sicrhau hawl y diffynnydd i dreial teg. Bydd yr ymchwilydd yn gyntaf yn datgelu bodolaeth deunydd perthnasol i'r erlynydd ar restr o ddeunydd perthnasol nad yw'n sensitif neu, os yw'r deunydd yn sensitif (gweler y diffiniad uchod), ar restr o ddeunydd sensitif perthnasol. Darperir rhestr o ddeunydd perthnasol nad yw'n sensitif i'r amddiffyniad; ni ddarperir y rhestr o ddeunydd sensitif perthnasol (yn ôl ei natur). Rhaid i'r erlynydd benderfynu pa ddeunydd, os o gwbl, sy'n bodloni'r prawf datgelu (gweler y diffiniad uchod) a darparu'r deunydd hwnnw i'r diffynnydd. Wrth geisio deunydd gan drydydd parti, bydd yr ymchwilydd felly'n disgwyl datgelu ei fodolaeth os yw'n berthnasol i'r erlynydd a'r diffynnydd, oni bai ei fod yn sensitif mewn perthynas â'r olaf. Ni ddylid rhoi'r ymchwilydd mewn sefyllfa lle nad yw'n gallu datgelu bodolaeth, neu ddarparu, deunydd perthnasol i Wasanaeth Erlyn y Goron. Ni ddylid ychwaith roi'r ymchwilydd mewn sefyllfa lle na all ddatgelu bodolaeth deunydd i'r amddiffyniad oni bai ei fod, mewn gwirionedd, yn sensitif.

2.6 Gall trydydd parti roi cyfarwyddiadau trin ar y ffurflen yn Atodiad 6. Ni fydd deunydd a ddarperir gan drydydd partïon yn cael ei ystyried yn sensitif yn awtomatig am y rhesymau a nodir uchod. Bydd yr ymchwilydd a'r erlynydd yn cadw at y cyfarwyddiadau trafod. Dim ond o dan yr amgylchiadau mwyaf eithriadol, a lle mae rheswm brys a chymhellol dros wneud hynny[9], y bydd y deunydd hwnnw'n cael ei ddatgelu ac eithrio yn unol â'r cyfarwyddiadau trafod. Gallai'r cyfarwyddiadau trin a thrafod, er enghraifft, fynd i'r afael â pham na ddylid dosbarthu'r deunydd y tu hwnt i Wasanaeth Erlyn y Goron,

---

[7] Paragraff 4.3 Cod Erlynwyr y Goron – oni bai fod yr erlynydd yn fodlon bod y deunydd pellach yn annhebygol o effeithio ar y penderfyniad ynghylch cyhuddo – yng nghyd-destun y Protocol hwn, mae hynny'n debygol o fod yn anghyffredin

[8] Ar ôl cyhuddo, gall lefel cyfraniad Gwasanaeth Erlyn y Goron fod yn uwch, e.e. dewis olaf Deddf Gweithdrefn Droseddol (Presenoldeb Tystion) 1965, ond mae rôl yr ymchwilydd yn aros yr un fath. Mae'r ymchwilydd yn arwain y gwaith o gael gafael ar ddeunydd nad yw'n cael ei ddefnyddio. Gwasanaeth Erlyn y Goron sy'n arwain y gwaith o wneud datgeliad.

[9] Gan fod hyn yn ymwneud â'r prawf datgelu, mae'r rheswm yn debygol o fod yn fater brys ac yn effeithio ar yr hawl i dreial teg

gyda'r rhesymau pam ei fod yn ddeunydd sensitif, ynteu a oes angen golygu'r deunydd (ymhellach) os caiff ei ddatgelu.

2.7 Pan fydd trydydd parti yn honni bod y deunydd sy'n cael ei geisio yn sensitif, mae'r canlynol yn bwysig:

- efallai y bydd angen i'r ymchwilydd, a'r erlynydd, sefydlu (a) pam y gwneir yr honiad o sensitifrwydd a (b) a yw'r deunydd ei hun yn sensitif, ac a ellir cymryd camau i dawelu'r pryderon hynny – weithiau dywedir bod deunydd yn sensitif pan nad ydyw (neu nad oes angen iddo fod) ar ôl gwaith dadansoddi pellach
- dim ond deunydd sy'n bodloni'r prawf datgelu y mae'n rhaid ei ddarparu i'r amddiffyniad – rhaid i'r erlynydd roi'r prawf hwn ar waith yn ofalus ym mhob deunydd
- mae'n bosibl y bydd modd datgelu deunydd sy'n bodloni'r prawf hwn heb beryglu ei sensitifrwydd – er enghraifft, drwy olygu'r ddogfen yn ormodol lle nad yw'r rhannau wedi eu golygu yn ddeunydd y gellir ei ddatgelu, neu ddarparu ffurf o eiriau sy'n cyfleu'r hyn y gellir ei ddatgelu am y ddogfen heb ddarparu'r ddogfen ei hun
- mewn amgylchiadau lle mae'r deunydd (i) yn wirioneddol sensitif, (ii) y bodlonir y prawf datgelu a (iii) na ellir datgelu heb amharu ar ei sensitifrwydd, gall yr erlyniad naill ai benderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r achos, neu geisio dyfarniad imiwnedd er lles y cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys lle byddai datgelu'r deunydd yn groes i'r cyfarwyddiadau trin yn yr ymateb i'r cais am ddatgeliad. Mae rheol 15.3 Rheolau Trefniadaeth Droseddol 2020 yn nodi'r weithdrefn berthnasol, gan gynnwys cyflwyno i'r rhai y mae datgelu'r deunydd yn effeithio arnynt, pan fydd erlynydd yn gofyn am ddyfarniad o'r fath. Mae cymhwyso'r profion sensitifrwydd yn drylwyr ac yn ofalus ac ar gyfer datgelu deunydd i'r amddiffyniad yn golygu mai dim ond mewn achosion prin iawn y dylai fod angen ceisiadau o'r fath.

**Mynediad yr heddlu at wybodaeth a deunydd achosion teulu**

2.8 Mae Cyfarwyddyd Ymarfer 12G Rheolau Trefniadaeth Teulu yn gwneud darpariaeth i barti mewn achos ddarparu i'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron y testun neu grynodeb o'r cyfan neu ran o ddyfarniad a roddir yn yr achos, at ddibenion ymchwiliad troseddol ac i alluogi'r Gwasanaeth i gyflawni ei swyddogaethau o dan unrhyw ddeddfiad yn y drefn honno. Er mwyn gwneud cais penodol a chymesur am ddeunydd, gall yr heddlu ofyn am ddyfarniad ysgrifenedig gan awdurdod lleol neu barti arall mewn achos,

os caiff ei baratoi gan y barnwr, nodyn o’r dyfarniad a wnaed gan barti yn y llys (gyda’u caniatâd a chymeradwyaeth y barnwr), neu drawsgrifiad os gorchmynnwyd hynny. Rhaid i awdurdod lleol ddarparu un neu fwy o’r rhain ar gais, ar ôl penderfynu beth sydd ar gael a beth y gellir ei ddarparu. Rhaid i drefniadau lleol roi sylw i sut y gwneir hyn a phwy fydd yn talu.

2.9 Gall barnwr Llys Teulu sy’n rhoi dyfarniad y mae’n credu y dylid ei ddwyn i sylw’r heddlu roi cyfarwyddyd ar gyfer eu dyfarniad ysgrifenedig, neu nodyn y cytunwyd arno a baratowyd gan yr eiriolwyr, i’w anfon at yr heddlu. Gall hyn fod at ddibenion ymchwiliad troseddol (o dan y Cyfarwyddyd Ymarfer) neu am resymau diogelu, neu’r ddau.

2.10 Pan fo awdurdod lleol yn barti mewn achos, rhaid iddo hefyd ddarparu rhestr (e.e. drwy ddarparu copi o fynegai llys wedi ei olygu) o ddeunydd o fewn y papurau achos teulu i’r heddlu, heb ddisgrifio’r cynnwys penodol. Rhaid i'r awdurdod lleol, pan fo'n bosibl ac ar sail yr wybodaeth a ddarperir gan yr heddlu, dynnu sylw at y dogfennau ar y mynegai sy'n debygol o fod yn berthnasol i'r achos troseddol ac y gellid gwneud cais am ddatgeliad ar eu cyfer.

2.11 Os bydd yr heddlu, ar ôl derbyn dyfarniad Llys Teulu (ar ba ffurf bynnag) a/neu’r rhestr o ddeunydd, yn gofyn am ragor o wybodaeth neu ddeunydd, byddant yn gwneud hynny drwy lenwi’r ffurflen gais yn Atodiad 6, i egluro’r hyn a geisir, a pham. Pan fo achosion yn fyw, rhaid i awdurdod lleol gynorthwyo drwy sefydlu neu gynorthwyo’r heddlu i sefydlu a yw’r partïon yn cydsynio bod y deunydd yn cael ei ddarparu. Yna, rhaid i’r heddlu lenwi ffurflen C2. Rhaid i’r awdurdod lleol gynorthwyo drwy ddarparu’r wybodaeth sydd ei hangen ar yr heddlu i lenwi ffurflen C2 (er enghraifft, y llys sy’n gwrando ar yr achos, rhif yr achos, y barnwr a ddyrannwyd a manylion y partïon, gan gynnwys cynrychiolwyr lle bo hynny’n berthnasol). Bydd yr heddlu’n osgoi dyblygu drwy ddarparu’r rhan fwyaf o’r cais yn Atodiad 6 a chyda digon o wybodaeth ychwanegol ar ffurflen C2. Os gellir darparu’r deunydd gyda chaniatâd y partïon, gall gwrandawiad fod yn ddiangen a gellir llwytho gorchymyn cydsynio gyda ffurflen C2. Rhaid i’r awdurdod lleol lwytho’r ffurflenni cais ar gyfer yr heddlu i’r Porth, neu alluogi mynediad er mwyn i’r heddlu allu gwneud hynny. Darperir deunydd y Llys Teulu i’r heddlu i’w ddosbarthu ymhellach, fel y caniateir dan y gyfraith, i Gwasanaeth Erlyn y Goron, yr amddiffyniad a’r llys, a dylai’r gorchymyn llys wneud hyn yn glir.

2.12 Fel mater o drefn, mewn achosion priodol lle ceir ymchwiliad troseddol neu erlyniad cysylltiedig, rhaid i'r heddlu, gyda digon o rybudd, gael dyddiadau ar gyfer gwrandawiadau gan yr awdurdod lleol a Gorchmynion priodol a wneir gan y Llys Teulu, wedi eu golygu'n briodol, yn ôl yr angen.

**Mynediad yr heddlu at wybodaeth a deunyddiau awdurdodau lleol**

Datgeliad gwirfoddol gan drydydd parti i'r heddlu

2.13 Os yw'r heddlu o'r farn bod trydydd parti yn dal deunydd a allai fod yn berthnasol i'r ymchwiliad, rhaid rhoi gwybod i'r trydydd parti hwnnw am yr ymchwiliad cyn gynted â phosibl a thynnu sylw at yr angen i gadw deunydd perthnasol. Nid oes rhwymedigaeth gyfreithiol ar y trydydd parti i wneud hynny ond mae'r protocol hwn yn cadarnhau mai dyma'r arfer gorau. Wrth ofyn am ddeunydd gan ddefnyddio ffurflen Atodiad 6, mae'n hanfodol bod gwybodaeth lawn am y dyddiadau a'r brys yn cael ei darparu. Rhaid i awdurdod lleol gyfathrebu â'r heddlu os nad yw'r amserlenni'n debygol o gael eu bodloni. Gall awdurdodau lleol wrthod darparu datgeliad lle nad yw'r ffurflen Atodiad 6 wedi ei llenwi'n briodol ac yn ddigon manwl. Os bydd awdurdod lleol yn gwrthod derbyn ffurflen gais, rhaid iddo nodi'n glir yn ysgrifenedig pa wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen arno i allu derbyn y cais.

2.14 Rhaid i'r heddlu roi gwybod i awdurdodau lleol cyn gynted â phosibl am unrhyw benderfyniad i beidio â chymryd camau pellach mewn achos lle mae cais am ddeunydd eisoes wedi ei wneud. Mae hyn er mwyn osgoi defnyddio adnoddau cyhoeddus i ystyried deunydd nad oes ei angen mwyach.

2.15 **Nid yw'r gyfraith yn mynnu eich bod chi'n rhoi caniatâd i ddatgelu gwybodaeth.** Rhaid i'r awdurdod lleol ystyried y sail gyfreithiol briodol a'r amodau ar gyfer rhannu deunydd â'r heddlu ar sail amgylchiadau a theilyngdod pob cais unigol yn unol â GDPR y Deyrnas Unedig a Deddf Diogelu Data 2018 (gan gynnwys golygu lle bo angen). Serch hynny, mae'r ffurflen yn cynnwys barn yr unigolyn dan sylw, oni bai fod rheswm cyfiawn dros beidio â chanfod barn yr unigolyn (er enghraifft, byddai gwneud hynny'n rhagfarnu ymchwiliad yr heddlu neu'n rhoi eraill mewn perygl o niwed). Rhaid ystyried safbwyntiau a fynegir ond nid ydynt yn rhwymol.

2.16 Ni fydd awdurdod lleol yn darparu deunydd y gofynnwyd amdano yn Atodiad 6 ond sy'n ymwneud ag achosion sy'n ymwneud â phlant o dan awdurdodaeth gynhenid yr Uchel Lys, Deddf Plant 1989, Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 neu sydd fel arall yn ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â chynnal a magu plant[10] oni chaniateir hynny'n benodol gan y llys perthnasol neu drwy gyfrwng Rheolau Trefniadaeth Teulu 2010[11].

2.17 Mae hyn yn golygu na all awdurdod lleol ddatgelu'n awtomatig i'r heddlu ddogfennau a baratowyd yn benodol ar gyfer yr achos uchod neu wybodaeth (boed hynny'n ysgrifenedig neu ar lafar) sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod yr achos ar ôl iddynt ddechrau. Fodd bynnag, gall yr awdurdod lleol ddatgelu dogfennau a oedd yn bodoli cyn i'r achos ddechrau, hyd yn oed os cawsant eu ffeilio wedyn fel tystiolaeth yn yr achos yn ddiweddarach (er enghraifft, cofnodion ac adroddiadau amddiffyn plant). Os oes unrhyw ansicrwydd ynghylch a all rannu dogfen neu wybodaeth neu beidio, dylai'r awdurdod lleol gysylltu â'i adran gyfreithiol cyn gwneud unrhyw ddatgeliad.

2.18 Rhaid i'r awdurdod lleol hefyd beidio â darparu deunydd i'r heddlu gan drydydd partïon eraill a all fod ganddo yn ei feddiant heb gytundeb y trydydd parti arall a rheolydd data'r deunydd hwnnw. Fodd bynnag, rhaid i'r awdurdod lleol roi gwybod i'r heddlu lle mae deunydd pellach sy'n ymwneud â'r cais yn cael ei wneud a beth yw'r deunydd hwnnw, yn ogystal ag enw a manylion cyswllt yr awdur/practis meddygol/awdurdod fel y gall yr heddlu geisio rhyddhau'r deunydd drwy gysylltu â'r trydydd parti'n uniongyrchol. Bydd yr awdurdod lleol hefyd yn helpu i nodi unrhyw ysgol berthnasol i'r heddlu ofyn am wybodaeth neu ofyn am ddeunydd yn uniongyrchol.

## Gwŷs Tystion

2.19 Bydd anghydfodau ynghylch darparu deunydd yn anghyffredin gan fod y partïon yn y protocol hwn yn ymdrin ag ef mewn ysbryd o gydweithredu. Os ceisir gwysion tystion, rhaid i ddarpariaethau adran 97 Deddf Llysoedd Ynadon 1980 neu Ddeddf Trefniadaeth Droseddol (Presenoldeb Tystion)

[10] Adran 12 Deddf Gweinyddu Cyfiawnder 1960. Mae rhagor o ganllawiau ar baramedrau'r gwaharddiad i'w gweld ym mharagraff 112 o A v Ward [2010] EWHC 16 a pharagraff 82 o Re B (A Child) (Disclosure) [2004] EWHC 411 (Fam)

[11] Rheolau 12.74-75 a PD12G

1965 gael eu bodloni gyda'i gilydd, rhai i Reolau Trefniadaeth Droseddol Rhan 17 gael eu dilyn, gan nodi'n benodol y darpariaethau sy'n diogelu buddiannau'r rhai mae gwysion tystion yn cael eu gwneud yn eu herbyn, neu'n cael eu heffeithio fel arall.

## Rhan C: Gwrandawiadau Cyfarwyddo Cysylltiedig

3.1 Mae'r rhan hon o'r protocol yn berthnasol mewn unrhyw achos lle mae'r awdurdod lleol, Gwasanaeth Erlyn y Goron neu Farnwr yn y llys troseddol neu'r Llys Teulu o'r farn y gallai gwrandawiad cyfarwyddyd cysylltiedig mewn achosion troseddol a gofal fod yn briodol.

3.2 Pryd bynnag y codir posibilrwydd o wrandawiad cyfarwyddo cysylltiedig naill ai mewn achos troseddol neu deuluol, bydd y Barnwr teulu neu droseddol dynodedig, yn y lle cyntaf, yn gwneud ymholiadau i'r llys arall drwy ei Farnwr Preswyl neu Farnwr Teulu Dynodedig os yw hynny'n angenrheidiol er mwyn canfod pwy sy'n cael ei ddyrannu i'r achos yn y llys arall hwnnw a pha bryd y cynhelir gwrandawiadau.

3.3 Ar ôl ei nodi, bydd y Barnwyr Teulu a Throseddol dynodedig yn cysylltu er mwyn gallu cynnal y gwrandawiad cyfarwyddyd cysylltiedig, o bell neu fel arall.

3.4 Bydd yr achos troseddol yn cael ei restru gerbron y barnwr yn Llys y Goron yn gyhoeddus, gyda'r apwyntiad cyfarwyddyd cysylltiedig yn yr achos gofal a restrwyd ar gyfer gwrandawiad yn breifat yn syth wedyn. Yn amodol ar wrthwynebiadau penodol a godir gan y partïon, gellir gwahodd yr eiriolwyr sy'n ymddangos yn yr achos troseddol i aros yn ystod yr apwyntiad cyfarwyddyd yn yr achos gofal.

3.5 Ym mhob achos sy'n ymwneud â gwrandawiad cyfarwyddyd cysylltiedig, rhaid i gynrychiolydd cyfreithiol yr awdurdod lleol, **ddim hwyrach na 4.00pm a dim llai na 5 diwrnod gwaith cyn y gwrandawiad cyfarwyddyd cysylltiedig**, gyda chaniatâd y llys teulu, baratoi a chyflwyno crynodeb achos i Wasanaeth Erlyn y Goron a Llys y Goron yn nodi sail cais yr awdurdod lleol, ei gynnwys mewn perthynas â'r "meini prawf trothwy" ("dogfen drothwy" yr awdurdod lleol), y sefyllfa gyfredol o ran y plentyn, manylion yr asesiadau arfaethedig a/neu'r asesiadau gan

arbenigwr/arbenigwyr sy'n cael eu cynnal a'r amserlenni ar eu cyfer, a'r amserlen (os oes un yn bod) ar gyfer yr achos yn y Llys Teulu.

3.6 Bydd cynrychiolydd cyfreithiol yr awdurdod lleol a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cytuno ar restr o faterion sy'n nodi'r materion hynny sy'n debygol o gael eu hystyried yn y gwrandawiad cyfarwyddyd cysylltiedig. Rhaid i'r awdurdod lleol ddosbarthu'r Atodlen i dwrneiod y partïon eraill yn yr achos troseddol a gofal **heb fod yn hwyrach na 4.00pm o leiaf 2 ddiwrnod gwaith cyn y gwrandawiad cyfarwyddyd cysylltiedig**.

3.7 Ar ddiwrnod y gwrandawiad cyfarwyddyd cysylltiedig, rhaid i'r adfocadau yn yr achos troseddol a gofal gyfarfod **ddim hwyrach nag awr cyn yr amser a bennwyd ar gyfer y gwrandawiad** i drafod y rhestr o faterion gyda golwg ar nodi pa gyfarwyddyd a all fod yn ofynnol, gan gyfeirio'n benodol at amserlen y treial, datgelu a thystiolaeth arbenigol a materion eraill y gellir eu nodi yn y protocol hwn.

3.8 Rhaid i ffeiliau'r llys perthnasol yn yr achos troseddol a gofal gael eu croesgyfeirio a'u marcio'n glir fel achosion "cysylltiedig".

3.9 Bydd y gwrandawiad cyfarwyddo wedi ei gysylltu ond nid wedi ei gyfuno'n llwyr oherwydd y gwahanol bartïon a'r rheolau trefniadol gwahanol sy'n berthnasol. Bydd y barnwr yn penderfynu a yw'n briodol i rai neu'r cyfan o'r holl gyfarwyddyd gael eu cyhoeddi mewn gwrandawiad ar y cyd neu ar wahân ac i orchymyn unrhyw gyfarwyddyd gael ei gyhoeddi.

3.10 Ar ddiwedd y gwrandawiad yn yr achos troseddol, dylai cwnsler yr erlyniad baratoi gorchymyn drafft, y cytunwyd arno gyda'r eiriolwyr eraill, i'w gyflwyno i'r barnwr ar yr un diwrnod i'w gymeradwyo. Bydd y gorchymyn cymeradwy hwn yn cael ei ddarparu i'r partïon yn yr achos gofal gan Wasanaeth Erlyn y Goron.

3.11 Gyda chaniatâd y llys teulu, bydd y gorchymyn a wneir yn yr achos gofal yn cael ei ddarparu gan yr awdurdod lleol i Wasanaeth Erlyn y Goron a chyfreithwyr yr amddiffyniad yn yr achos troseddol.

3.12 Ni fydd y Barnwr Teulu dynodedig, hyd yn oed os oes ganddo docyn priodol, yn llywyddu dros y treial yn yr achos troseddol, nac yn rhoi dedfryd os oes ple euog, ac ni fydd y barnwr ychwaith yn rhoi "arwydd Goodyear".

3.13 Bydd y barnwr yn y treial troseddol neu sy'n rhoi dedfryd os ceir ple euog yn rhoi gwybod i'r Barnwr Teulu am y canlyniad.

**Eitemau enghreifftiol ar yr agenda: materion i'w hystyried yn y gwrandawiad cyfarwyddyd cysylltiedig**

- Amserlennu: trefn briodol treialon a sicrhau eu bod yn cael eu cynnal
- Datgelu: darparu deunydd rhwng yr achosion
- Tystiolaeth arbenigol: adnabod, argaeledd i ddarparu barn a bod yn bresennol yn y llys, eu rôl yn y gwrandawiadau troseddol a gofal
- Cofnodion Adran 28 Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999
- Gwŷs tystion
- Gwrandawiadau imiwnedd er budd y cyhoedd
- Trefniadau ar gyfer cyfweld plant mewn gofal at ddibenion yr achos troseddol ac unrhyw drefniant i'r plentyn roi tystiolaeth mewn unrhyw wrandawiad troseddol neu deuluol
- Trawsgrifiadau: i sicrhau bod trawsgrifiadau o achosion cynharach ar gael i'r rhai dilynol
- Asesiad neu fewnbwn therapiwtig sydd ei angen gan unrhyw blentyn sy'n rhan o'r achos.
- Cyfyngiadau ar adrodd
- Bodolaeth unrhyw ddeunydd sy'n ymwneud â "chymeriad drwg" (ymddygiad teilwng o gerydd gan unrhyw un)
- Camau eraill sy'n gysylltiedig â gwaith cymdeithasol neu gyfreithiol yn yr achos Llys Teulu.